



Maniffesto Etholiad Cyffredinol 2017



#AmaethAmByth

Undeb Amaethwyr Cymru

Ni yw llais annibynnol ffermydd teuluol Cymru

Ym 1978 cafodd UAC ei chydabod yn swyddogol gan Lywodraeth y DU fel yr unig undeb amaethyddol sydd yn cynrychioli dim ond ffermwyr Cymru.

Rydym yn ymfalchïo yn y cysylltiad sydd gennym gyda'n ffermwyr. Mae gennym strwythur democrataidd a lleol, sy'n golygu bod aelodau'n dylanwadu ar bolisi UAC ac yn graidd i'r Undeb.

Lobio ac Ymgyrchu

Rydym yn lobïo a dylanwadu ar Lywodraethau ar bob lefel yn San Steffan, Caerdydd a Brwsel. Rydym yn gweithio'n galed i hyrwyddo buddiannau'r rhai sy'n ennill incwm o amaethyddiaeth yng Nghymru a boed ar grŵp cyngor lleol neu gorff cenedlaethol rydym yn diogelu buddiannau ein haelodau drwy gydol y flwyddyn.

Gwybodaeth a Datblygu

Hefyd, mae gennym 11 o bwyllgorau polisi (sefydlog), yn cynnwys Pwyllgor Iechyd a Lles Anifeiliaid, Llaeth a Chynnyrch Llaeth, Defnydd Tir a Materion Seneddol, Addysg a Hyfforddiant, Arallgyfeirio a Llais Yr Ifanc Dros Ffermio. Maent yn cyfarfod i drafod materion allweddol, derbyn gwybodaeth ar y datblygiadau diweddaraf gan y tîm polisi a chreu pwyntiau gweithredu er budd y sector.

Mae'r rhain yn cynnwys cynrychiolwyr o ffermwyr a etholwyd yn ddemocrataidd o 12 cangen sir yr Undeb, yn cael eu cynorthwyo gan aelod o'r tîm polisi, ac a gadeirir gan gynrychiolydd etholedig yr aelodau.

Cefnogaeth ac arweiniad

Mae gan bob sir yng Nghymru swyddfa leol a thîm o staff o dan arweiniad Swyddog Gweithredol Sirol ymroddedig. Y Swyddog Gweithredol Sirol lleol yw'r cyswllt cyntaf ar gyfer ymholiadau polisi amaethyddol megis apeliadau, cosbau, Glastir a gwaith cyfalaf, cefnogaeth o ran gwaith papur y fferm (gan gynnwys cymorth gyda ffurflen y Taliad Sengl, symudiadau BCMS a chofrestru gyda RPW Ar-lein). Maent hefyd yn medru cynnig arweiniad proffesiynol ar faterion megis cynllunio, hawliau tramwy ac anghydfodau ynghylch ffiniau.

Cynrychiolaeth a Materion Lleol

Mae'r swyddogion sirol yn cwrdd yn rheolaidd gyda'r aelodaeth leol i drafod sefyllfa bresennol y diwydiant ac i ffurfio polisiâu UAC. Mae'r aelodau'n ethol swyddogion lleol UAC megis Cadeirydd Sirol a Llywydd y Sir ac maent yn holl bwysig wrth gynrychioli ein haelodau.

Mae cynrychiolwyr o'r grwpiau yma, pwyllgorau'r sector, swyddogion a staff yr undeb yn cyfarfod bob chwarter yn y Prif Gyngor sef corff llywodraethol a etholir yn ddemocrataidd. Mae'r cyngor yn adolygu gweithgarwch yr Undeb yn ogystal â thrafod materion amaethyddol presennol a rhai sy'n debygol o effeithio amaethyddiaeth yng Nghymru.

Cynnwys

Rhagair gan y Llywydd	3
Proses Brexit	4
Masnach UE	5
Cyllid	6
Fframwaith Amaeth ar gyfer y DU	7 & 8
Y Bil Diddymu Mawr	9
Masnach Byd-eang	10
Gwyddoniaeth a Thechnoleg	11
Caffael Cyhoeddus	12
Cadwyni Cyflenwi	13
Hela gyda Chŵn	14
Yr Amgylchedd	15
Iechyd a Lles Anifeiliaid	16
TB Gwartheg	17 & 18



Rhagair:

Mae canlyniad Refferendwm UE mis Mehefin llynedd wedi bod yn drobwynt unigryw yn hanes y DU, ac wedi arwain yn uniongyrchol at yr Etholiad Cyffredinol sy'n agosáu - sydd yn unigryw, o ystyried y bydd prif ffocws yr ymgyrchoedd yn cylchdroi o amgylch Brexit.

Er bod gan Undeb Amaethwyr Cymru orchymyn glir o'i haelodaeth i gefnogi'r DU yn aros yn rhan o'r UE, rydym yn parchu canlyniad y refferendwm yn llwyr ac yn disgwyl gweld y broses Brexit yn cael ei weithredu.

Fodd bynnag, ers 24 Mehefin 2016, rydym wedi datgan yn glir y dylai'r broses o adael yr UE ddigwydd dros amserlen realistig a diogel, o ystyried maint y gwaith sydd angen ei wneud cyn ac ar ôl Brexit.

Byddai methu ymgymryd ag agwedd ymarferol o'r fath, nid yn unig yn peryglu ein gallu i sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer Cymru a'r DU, ond hefyd yn ei gwneud yn fwy anodd i osgoi'r peryglon sy'n sylfaen i lawer o'r llwybrau y gallem eu dilyn y tu allan i'r UE.

Er bod tanio Erthygl 50 ar y 29ain o Fawrth wedi cyfyngu'r cyfnod o amser lle mae'n rhaid gwneud llawer iawn o waith, mae'r opsiynau a fyddai'n caniatáu trosglwyddiad esmwyth dros amserlen ddiogel yn parhau ar agor, ac nid yw UAC am ymddiheurio dros gefnogi newid graddol yn hytrach na baglu i mewn i'r anghyfarwydd.

Bydd Brexit yn hawlio'r rhan fwyaf o'r ddadl wleidyddol dros y misoedd a'r blynyddoedd sydd i ddod, ond mae'n rhaid i'r Senedd a Llywodraeth nesaf y DU gymryd y cyfle i lunio polisiau gwladol sy'n addas ar gyfer y DU y tu allan i'r UE.

Mae'n rhaid i'r polisiau hynny barchu'r cydbwysedd presennol o bŵer rhwng gwledydd datganoledig, tra hefyd yn cymryd i ystyriaeth y pryderon ynghylch rheolau anghyfartal, rheoliadau a biwrocratiaeth yr UE, a arweiniodd at gymaint yn pleidleisio i adael yr UE.

Yn fwy na dim arall, mae'n rhaid i'r rhai a etholwyd ddilyn canlyniadau sy'n dirymu'r risgiau i'r rhai mwyaf bregus yn sgil senarios ôl-Brexit - nid lleiaf ein teuluoedd ffermio a'n cymunedau gwledig - trwy sicrhau bod cefnogaeth wladol, cytundebau masnach a'r cadwyni cyflenwi yn deg ac addas.

Ers 1978 mae'r UAC wedi cael ei gydnabod yn ffurfiol gan Lywodraethau i gynrychioli barn ffermwyr yng Nghymru. Nid oes gennym unrhyw ddylanwadau o'r tu allan i Gymru, ac yn siarad ar ran ffermydd teuluol yng Nghymru yn unig.

Fel sefydliad amhleidiol sydd ddim yn gysylltiedig ag unrhyw blaid wleidyddol, mae gennym ddyletswydd i weithio gyda'r Llywodraeth sydd mewn grym a'r gwrthbleidiau, beth bynnag yw eu daliadau gwleidyddol.

Ar gyfer cyfnod y Senedd nesaf a thu hwnt mae UAC yn ymroddedig i lobio pawb yn San Steffan i sicrhau bod amaethyddiaeth yng Nghymru a ffermydd teuluol yng Nghymru yn cael y sylw a'r parch y maent yn haeddu, ar gyfer cyfnod y Senedd nesaf a thu hwnt - er lles dyfodol pawb.

Glyn Roberts, Llywydd UAC

Proses Brexit

Yn Chwefror 2017, disgrifiodd Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin y broses o adolygu holl ddeddfwriaeth yr UE a throsglwyddo cyfreithiau dan Y Bil Diddymu Mawr fel *"...potentially one of the largest legislative projects ever undertaken in the UK."*

Ac eto, mae'r broses honno'n cynrychioli ffracsiwn yn unig o'r gwaith sydd angen ei wneud fel rhan o'r broses Brexit - gwaith sy'n cynnwys trafodaethau masnach cymhleth, sefydlu rheolaeth newydd o ffiniau, a thrafod a sefydlu systemau ar gyfer rhannu gwybodaeth bwysig gyda'r UE ac eraill.

Am y rhesymau hyn y galwodd UAC, ar 24ain Mehefin 2016 *"...ar y DU a'r UE i gytuno ar gyfnod amser synhwyrol ar gyfer Brexit ... neu wynebu'r perygl o ganlyniadau trychinebus i'r DU yn ogystal â'r 27 o wledydd fydd ar ôl yn yr UE", gan bwysleisio "Mae gwaith anferthol i'w wneud nawr yn nhermau newid trefniadau a chyfreithiau gwladol, gan gynnwys deddfau sydd wedi'u datganoli i Gymru, heb sôn am y gwaith o'n datgysylltu o'n hymrwymiaid i gyllideb yr EU, trafod cytundebau masnach a delio â materion megis rheolaeth o'n ffiniau."*

Er bod tanio Erthygl 50 ar 29ain Mawrth wedi cyfyngu ar y cyfnod amser sydd ar gael i gwblhau'r holl waith sydd angen ei wneud, mae opsiynau a fyddai'n caniatáu trosglwyddiad hwylus dros raddfa amser ddiogel yn dal i fodoli. Hefyd, mae peidio â chanfod ffyrdd o ganiatáu digon o amser i wneud y gwaith yn golygu bod yna risgiau sylweddol.

Yn bennaf ymhlith y rhain mae'r niwed a achosir i nifer o ddiwydiannau gwahanol, a'n heconomi gyfan, os na fydd yna drefniadau masnach derbyniol yn eu lle pan fydd y DU yn gadael yr UE, a'n bod yn cael ein gorfodi i droi at reolau Sefydliad Masnach y Byd.

Yn hyn o beth, mae UAC yn galw ar Lywodraeth nesaf y DU:

1. I drafod telerau proses Brexit gyda'r UE sy'n caniatáu digon o amser i gytuno ar delerau masnachu, a materion eraill sydd o fudd i Gymru, y DU a'r 27 o wledydd a fydd ar ôl yn yr UE.

Masnach UE

I Gymru, mae goblygiadau 'Brexit caled', sy'n golygu colli mynediad rhydd i Farchnad Sengl yr UE, yn rhai arbennig o lym: **mae tua dwy ran o dair o allforion penodol o Gymru'n mynd i wledydd yr UE**, tra bod nifer o'n prif gyflogwyr yn lleoli'u cwmnïau yma'n benodol oherwydd ein gallu i gyrraedd y 500 miliwn o ddefnyddwyr yr UE, heb gostau a rhwystrau rheolaeth ffiniau, a thariffau Sefydliad Masnach y Byd.

Fel diwydiant, mae amaethyddiaeth yng Nghymru'n arbennig o agored i effeithiau colli mynediad i farchnadoedd ffyniannus tir mawr Ewrop sydd ar ein stepen drws; **mae traean cig oen Cymru'n cael ei allforio i'r cyfandir, a phan gollwyd mynediad i farchnad yr UE yn 1996, 2001 a 2007 gwelwyd cwmp trychinebus yn incwm ffermydd, cwmp y methodd nifer o fusnesau â'i oresgyn.**

Fel y cyfryw, os bydd polisiau Brexit yn arwain at chwalu cadwyni cyflenwi hirsefydlog sy'n ymestyn dros yr UE ar hyn o bryd, mi fydd yna chwalfa ar raddfa eang, gyda'r effaith yn amrywio rhwng sectorau a rhanbarthau datganoledig. O ystyried bod 51 y cant a 35 y cant o gynnyrch amaethyddol Cymru'n dda byw neu'n gynnyrch da byw, a phwysigrwydd arbennig y diwydiant defaid, mi fyddai effeithiau andwyol Brexit caled yn rhaid hynod o ddifrifol i Gymru.

Mae UAC felly'n galw ar Lywodraeth nesaf y DU:

1. I geisio dod i gytundeb hirdymor gyda'r UE a fydd yn cadw mynediad syml a di-dariff i Farchnad Sengl yr UE.
2. I sicrhau nad yw'r trefniadau masnach yn ystod ac ar ôl y broses Brexit yn chwalu cadwyni cyflenwi hirsefydlog pwysig, sy'n ychwanegu gwerth i gynnyrch Cymru a'r Deyrnas Unedig.

Cyllid

Arian ar gyfer Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yng Nghymru

Ar hyn o bryd mae Cymru'n derbyn tua £300 miliwn y flwyddyn dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin, gydag arian Colofn 1 yn cyfateb i 9 y cant a Cholofn 2 yn cyfateb i 14 y cant o gyllidebau'r DU.

Mae'r arian hwn nid yn unig yn cynnal y busnesau fferm a'r cymunedau gwledig sydd wrth galon tirwedd a diwylliant Cymru, ond mae hefyd yn cynhyrchu gwaith a gweithgareddau economaidd o fewn busnesau eilaidd a thrydyddol, sy'n werth mwy o lawer yn y pen draw na'r swm a ddyrannir i Gymru dan y PAC.

O'i gymharu â hyn, mae fformiwla Barnett yn dyrannu un swm i Gymru ar sail gwariant yng Nghymru o'i gymharu â gwasanaethau cyffelyb yn Lloegr, gan ystyried y gwahaniaeth mewn poblogaeth rhwng y ddwy wlad.

Am fod poblogaeth Cymru, wedi'i fynegi fel canran o boblogaeth Lloegr, yn 5.7%, mi fyddai cynnwys gwariant ar amaethyddiaeth a datblygu gwledig o fewn fformiwla Barnett ar ôl Brexit yn arwain at ostyngiad sylweddol yn y swm o arian a dderbynnir gan Gymru, gyda chanlyniadau hynod andwyol i fusnesau ar draws Cymru.

Yn naturiol, mi fyddai cyfuniad o bolisi o'r fath, ac unrhyw gwtogi o ran gwariant ar amaethyddiaeth a datblygu gwledig yn y DU, yn cael effaith ddifrifol bellach yn nhermau cyllid.

Dan Fframwaith Ariannol Amlfwydd presennol yr UE, rhaid i gyllideb flynyddol yr UE gadw o fewn yr uchafsymiau a gytunwyd dros gyfnod o saith mlynedd, gan ddarparu sefydlogrwydd cymharol i Lywodraethau a busnesau fferm fel ei gilydd.

Ar ôl Brexit, mae yna berygl o ansicrwydd sylweddol, gyda'r symiau a ddyrannir yn newid yn fwy aml, gan greu ansefydlogrwydd ariannol i fusnesau a Llywodraethau.

Mae UAC yn credu y dylai Llywodraeth nesaf y DU:

1. Gytuno ar gyllidebau amaethyddiaeth a datblygu gwledig sydd o leiaf yn adlewyrchu'r cyllidebau hynny a fyddai'n bodoli pe bai'r DU wedi pleidleisio i aros yn yr Undeb Ewropeaidd.
2. Sicrhau bod y symiau hynny'n cael eu neilltuo'n benodol ar gyfer amaeth a datblygu gwledig.
3. Dyrannu arian o'r fath i Gymru y tu allan i Fformiwla Barnett, ac mewn ffordd sy'n sicrhau nad oes unrhyw gwtogi ar y swm a ddyrannwyd i Gymru'n hanesyddol.
4. Cytuno y dylai'r arian hwn gael ei weinyddu gan Lywodraeth Cymru'n unol â fframwaith y DU.
5. Sefydlu dulliau neu gonfensiynau ar gyfer osgoi'r ansefydlogrwydd ariannol a ddeuai yn sgil adolygu cyllidebau'n fwy aml nag y gwneir ar hyn o bryd gyda chyllideb PAC.

Fframwaith Amaeth ar gyfer y DU

Busnesau fferm yw asgwrn cefn economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ein hardaloedd gwledig, sy'n gwario biliynau o fewn economi ehangach Cymru, gan gynhyrchu bwyd diogel a fforddiadwy ar gyfer cadwyn gyflenwi sy'n cyflogi cannoedd o filoedd o bobl.

Heb yr arian a ddarperir drwy fframwaith Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yr UE, ni fyddai mwyafrif busnesau fferm Cymru'n goroesi, gan arwain at golli buddiannau economaidd a chymdeithasol ehangach, sy'n werth mwy o lawer yn ei grynswth na chyllideb PAC Cymru.

Dan y trefniadau datganoli presennol, **mae gan Gymru bwerau datganoledig dros bolisiau a gwariant amaethyddol**, yn ogystal â thros nifer o feysydd sy'n dylanwadu ar amaethyddiaeth.

Fodd bynnag, rhaid i bob polisi a gwariant gydymffurfio â'r Rheoliadau UE cyffredinol, sy'n anelu at leihau cystadleuaeth annheg rhwng rhanbarthau, a sicrhau bod rheolau cyfartal ar waith o fewn rhanbarthau ac ar ffermydd - trefniant sy'n caniatáu i weinyddiaethau datganoledig weithredu systemau talu a pholisiau sy'n amrywio, ond sy'n cydymffurfio ag egwyddorion cyffredinol fframweithiau gwahanol yr UE.

Pan fydd gwledydd, neu grwpiau o wledydd sy'n ffurfio blociau masnach, yn masnachu â'i gilydd, **mae fframweithiau tebyg yn eu lle fel arfer er mwyn osgoi llurgunio'r farchnad, un ai trwy gytundeb dwyochrog** neu (mewn amgylchiadau llai manteisiol i'r ddwy ochr fel arfer) trwy reolau Sefydliad Masnach y Byd.

Waeth pa gytundebau masnach fydd ar waith ar ôl Brexit, bydd ffermwyr Cymru'n cystadlu yn erbyn eu cymheiriaid mewn rhanbarthau datganoledig eraill, o fewn y DU ac mewn gwledydd eraill, **a bydd y rhesymeg dros gael polisi cyffredin ar draws y DU i osgoi cystadlu annheg a llurgunio'r farchnad yn aros yr un peth.**

O ystyried am ba hyd y mae ffermwyr a gweision sifil ar y ddwy ochr i Glawdd Offa wedi delio â datganoli, a Chonfensiwn Sewel ar gadw pwerau datganoledig, mae'n hanfodol bod fframwaith o'r fath yn cael ei lunio mewn partneriaeth â'r diwydiant amaeth a gweinyddiaethau datganoledig.

Er bod Brexit yn gyfle delfrydol i fynd i'r afael â nifer o ddiffygion yn y fframwaith amaeth presennol, gwelwyd bod rhoi mân newidiadau hyd yn oed ar waith dros gyfnodau amser byr wedi achosi problemau niferus, yn arbennig dros y blynyddoedd diwethaf yn Lloegr a'r Alban.

Fframwaith Amaeth ar gyfer y DU

Hefyd, gall newidiadau sy'n seiliedig ar dybiaethau gor-symbl ac idealistig gael effaith gatastroffig, gan olygu bod dadansoddi a modelu manwl yn hanfodol cyn mabwysiadu unrhyw bolisiau newydd.

Yng ngoleuni'r pryderon hyn, dylai Llywodraeth nesaf y DU:

1. Nodi buddiannau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol niferus polisi amaethyddiaeth a datblygu gwledig sydd wedi'i ariannu'n iawn.
2. Cydnabod bod y fframwaith cymorth PAC presennol yn cydymffurfio â rheolau Sefydliad Masnach y Byd.
3. Gweithio mewn partneriaeth â'r diwydiant amaeth a gweinyddiaethau datganoledig i ddatblygu fframwaith amaeth ar gyfer y DU sy'n atal cystadlu annheg rhwng rhanbarthau datganoledig; yn diogelu cyllid digonol hirdymor ar gyfer amaethyddiaeth; ac yn parchu'r pwerau datganoledig dros amaethyddiaeth a'r angen am rywfaint o hyblygrwydd, sy'n caniatáu i lywodraethau datganoledig wneud penderfyniadau sy'n briodol ar gyfer eu rhanbarthau nhw.
4. Sicrhau bod pob cynnig yn cael ei ddadansoddi a'i fodelu'n fanwl cyn y gwneir unrhyw benderfyniadau, gan ystyried yr effaith i'r naill gyfeiriad a'r llall ar gadwyni cyflenwi sy'n dibynnu ar fusnesau fferm, yn ogystal â'r busnesau fferm eu hunain.
5. Cytuno ar gyfnod pontio o ddeg mlynedd rhwng polisiau presennol a pholisiau'r dyfodol.
6. Cydnabod y gwahaniaeth clir rhwng gwerth economaidd a chymdeithasol uniongyrchol ac ehangach cymorth uniongyrchol o'i gymharu â thaliadau incwm rhagweladwy.
7. Monitro'n ofalus unrhyw ddatblygiadau o fewn y gwledydd hynny y mae ffermwyr y DU'n debygol o fod yn cystadlu yn eu herbyn - yn enwedig yn nhermau diwygio'r PAC.
8. Eithrio elusennau a ffermwyr anweithredol o gynlluniau'r dyfodol i sicrhau bod yr arian yn mynd i ffermydd teuluol.



A fyddai'r busnesau a gwasanaethau lleol yma yn goroesi heb amaethyddiaeth?

Y Bil Diddymu Mawr

Roedd rhwystredigaethau hirsefydlog gydag effaith Rheoliadau'r UE yn nhermau biwrocratiaeth ddiangen a cholli sofraniaeth yn ffactor allweddol o ran perswadio nifer i bleidleisio dros Brexit.

Er nad oes unrhyw brinder o enghreifftiau o weinyddiaethau o fewn y DU yn eurlatio rheolau neu'n methu â manteisio ar randdirymiaidau oedd ar gael, roedd yna sail ddilys i'r pryderon ynghylch natur eithafol a rhagnodol nifer o reolau a gofynion yr UE, ac felly hefyd ynghylch peryglon symud tuag at Ewrop sydd wedi'i ffederaleiddio.

Fel y cyfryw, mae yna gyfleoedd helaeth i adolygu'r rheolau hynny sy'n cosbi ac yn cyfyngu ar unigolion a busnesau mewn ffordd anghymesur, gyda'r bwriad o'u diddymu, neu'u disodli â deddfau datganoledig o fewn y DU sy'n addas i'r diben.

Fodd bynnag, os ydyn ni am gadw'r fasnach hanfodol â'r UE a marchnadoedd eraill, rhaid gwneud unrhyw newidiadau o'r fath mewn ffordd sy'n cydymffurfio â chytundebau masnachu, ac yn cyfateb i'r safonau o fewn y gwledydd hynny.

O ystyried maint y gwaith sydd angen ei wneud dros gyfnod byr iawn yn nhermau'r Bil Diddymu Mawr, a ddisgrifiwyd gan Lyfrgell Tŷ'r Cyffredin fel ***“...potentially one of the largest legislative projects ever undertaken in the UK”*** - **mae ceisio rhoi newidiadau enfawr ar waith yn rhy frysiog yn llawn peryglon - a hynny yn nhermau bygythiadau posib i gytundebau a thrafodaethau masnachu yn anad dim.**

Mae trawsnewid deddfwriaeth yr UE yn gyfraith o fewn y DU hefyd yn broses sy'n frith o broblemau cyfreithiol, gwleidyddol ac ymarferol, am nad yw rhai o egwyddorion yr UE yn cydweddu â chyfraith y DU, a byddai newidiadau sy'n effeithio ar y cydbwysedd grym rhwng gweinyddiaethau datganoledig â'r Llywodraeth ganolog yn mynd yn groes i Gonfensiwn Sewel.

Fel y cyfryw, mae UAC yn galw ar y Llywodraeth nesaf:

- 1. I asesu goblygiadau diddymu, diwygio neu ddatganoli deddfwriaeth yn drylwyr yng ngoleuni datblygiadau megis trafodaethau masnachu, a nodi'r newidiadau hynny y gellir eu gwneud heb gael effaith andwyol ar ein gallu i gyrraedd marchnadoedd yr UE a marchnadoedd eraill.**
- 2. I sicrhau bod Y Bil Diddymu Mawr terfynol yn cynnal y cydbwysedd grym presennol rhwng gweinyddiaethau datganoledig.**
- 3. Pan fod angen oherwydd cyfyngiadau amser, i drosglwyddo fframweithiau deddfwriaethol cyffredinol yr UE en bloc mewn ffordd sy'n cadw'r cydbwysedd grym rhwng gweinyddiaethau datganoledig a Llywodraeth a Senedd y DU, gan ymrwmo i adolygu fframweithiau o'r fath ar ôl Brexit.**

Masnachu Byd-eang

Mae masnachu rhyngwladol, trwy gytundebau masnach a mecanweithiau eraill, wedi dod â buddiannau enfawr i nifer o wledydd a phobloedd y byd, a bu'n gymorth sylweddol i sefydlogi sawl perthynas ryngwladol dros y chwe deg blynedd diwethaf.

Fodd bynnag, mae globaleiddio ar y raddfa a welwyd dros y blynyddoedd diwethaf hefyd wedi creu nifer o broblemau, megis dadleoli swyddi, cyflymu'r broses o ddinistrio rhai o gynefinoedd mwyaf gwerthfawr y byd, a chynyddu allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Mae digwyddiadau diweddar mewn gwledydd fel yr Unol Daleithiau wedi tanlinellu rhwystredigaeth gynyddol y rhai sy'n cael eu **heffeithio gan fasnachu rhydd a globaleiddio dirwysr, ac erbyn hyn ystyrir ei bod hi'n naïf credu bod rhyddfrydoli masnach yn frysiog a heb reolaeth yn beth da.**

Wrth i'r DU geisio dod o hyd i le newydd yn y byd y tu allan i'r UE, mae yna lawer o sôn am gytundebau masnach rydd gyda gwledydd eraill a blociau masnachu, ac mae'r impetws gwleidyddol o allu dangos bod modd sicrhau cytundebau o'r fath yn golygu bod yna berygl y bydd cytundebau sy'n rhoi nifer o'n diwydiannau dan anfantais yn cael eu harwyddo ar frys ar ôl Brexit.

I'n diwydiannau amaeth a bwyd, sy'n cyflogi 3.5 miliwn yn y DU, mi fyddai effeithiau andwyol cytundeb masnachu anfanateisiol sy'n rhyddfrydoli mewnforion bwyd yn gatastroffig, tra byddai mewnforio o wledydd gyda safonau iechyd a lles anifeiliaid a safonau amgylcheddol is o lawer na'r rhai a fyddir gan y DU, yn arwain at beryglon mawr i iechyd pobl ac anifeiliaid y DU, ac yn achosi mwy o niwed i'r amgylchedd.

Tynnwyd sylw at effeithiau o'r fath yn 2009 gan Ymchwil Polisi Bwyd ac Amaethyddiaeth Belfast, a ddadansoddodd effaith tebygol rhyddfrydoli rheolau UE presennol ar fewnforion bwyd. **Roedd y gwaith yn darogan gostyngiad yn incwm ffermydd y DU a lefelau chynhyrchu bwyd, a fyddai'n cael effaith hynod o andwyol ar ein cymunedau gwledig, gan danseilio diogelwch ein cyflenwad bwyd yn llwyr, a chynyddu lefelau datgoedwigo a thrawsgludo bwyd yn fyd-eang.**

Ar y llaw arall, mae Brexit yn darparu cyfleoedd posib i ganfod marchnadoedd newydd ar gyfer cynnyrch amaethyddol, a gynhyrchir yn unol â safonau iechyd a lles anifeiliaid a safonau amgylcheddol llym. Fodd bynnag, rhaid i Lywodraethau fod yn realistig am y cyfleoedd posib, o gofio profiad blaenorol o geisio ehangu a chael mynediad i farchnadoedd newydd; agosrwydd, cyfoeth a maint marchnadoedd o'r fath; a'r amser a gymerwyd i sicrhau'r rhan fwyaf o'r cytundebau masnachu.

Byddai UAC felly'n annog Llywodraeth y dyfodol:

1. I archwilio cyfleoedd i ddatblygu trefniadau masnachu newydd gyda gwledydd eraill, a blociau masnachu sydd o fudd i gynhyrchwyr cynradd, ac sy'n darparu marchnadoedd newydd.
2. I sicrhau bod diogelu'n cyflenwad bwyd, incwm trigolion gwledig, a'r angen i gynhyrchu bwyd yn lleol yn cael blaenoriaeth yn ystod trafodaethau'r dyfodol.
3. I roi blaenoriaeth i drafodaethau gyda'r farchnad fawr a chyfoethog sydd ar ein stepen drws, sef yr Undeb Ewropeaidd.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae Ymchwil a Datblygu bob amser wedi bod yn elfen hanfodol o sector amaethyddiaeth ffyniannus. Yn y dyfodol, bydd yr angen am ddatblygiadau technolegol i wella dulliau cynhyrchu a bwydo poblogaeth gynyddol, gan leihau mewnbynnau a lliniaru'r newid yn yr hinsawdd, yn tanlinellu'r angen am fuddsoddiad cyhoeddus sylweddol i ymchwil amaethyddol.

Am flynyddoedd lawer, mae gwaith ymchwil wedi canolbwyntio ar amaethyddiaeth yr iseldir, gydag ymchwil amaethyddol go iawn o fewn ardaloedd tir uchel fel y rhai sy'n frith yng Nghymru yn cael ei esgeuluso ar y cyfan.

Mae datblygiadau masnachol mewn meysydd megis amaethyddiaeth fanwl-gywir wedi canolbwyntio, am resymau dealladwy, ar ffurfiau mwy dwys o amaethyddiaeth, ac eto mae buddiannau economaidd ac amgylcheddol addasu technoleg o'r fath i'w ddefnyddio ar dir ffermio mwy ymylol yn hollol amlwg.

Mae gan ardaloedd yr iseldir a'r ucheldir rôl allweddol i'w chwarae o ran cynhyrchu bwyd, fel maent wedi'u wneud am filoedd o flynyddoedd, ac nid yw rhai polisïau sydd wedi lleihau gwerth amaethyddol ardaloedd yr ucheldir wedi cael fawr o effaith, neu'n aml wedi cael effaith andwyol, ar ecosystemau.

Mae'r sector preifat wedi chwarae rhan gynyddol bwysig o ran buddsoddi i gau'r bwlch ariannol a achosir gan y cwtogi ar arian cyhoeddus, ac felly cynyddu elw yw prif nod gwaith ymchwil a datblygiadau technolegol y dyddiau hyn yn naturiol, ac nid yw hynny o angenrheidrwydd er lles y cyhoedd yn gyffredinol.

Yng ngoleuni'r pryderon hyn, mae UAC o'r farn y dylai'r Llywodraeth nesaf:

1. Hyrwyddo ymchwil ymhob maes amaethyddol mewn ffordd sy'n adlewyrchu pwysigrwydd amaethyddiaeth yn nhermau diogelu'n cyflenwad bwyd, yr amgylchedd, a'r newid yn yr hinsawdd.
2. Cynyddu cyllid ar gyfer ymchwil amaethyddol i ffermio ardaloedd ucheldir, gyda phwyslais arbennig ar gnydau'r ucheldir, adfer cynhyrchedd y borfa, a throsglwyddo technoleg a ddatblygwyd ar gyfer systemau â'r iseldir.

Caffael Cyhoeddus

Yn ôl ymchwil gan y New Economics Foundation, **am bob £1 a warir ar gynhwysion tymhorol lleol, gellir cynhyrchu gwerth £1.19 pellach o weithgaredd economaidd.** Bob blwyddyn, mae £2.4bn yn cael ei wario gan gyrff y Llywodraeth ar fwyd, ac er bod y broses o gaffael cynnyrch amaethyddol y DU wedi gwella'n sylweddol o fewn rhai Awdurdodau dros y blynyddoedd diwethaf, mae yna nifer fawr o hyd nad ydynt yn cefnogi amaethyddiaeth ym Mhrydain, ond yn aml yn dewis cynnyrch o wledydd nad ydynt yn cwrdd â safonau cynhyrchu uchel y DU.

Pan lansiodd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig gynllun Caffael yn Lleol Syr Peter Bonfield yn 2014, roedd hynny'n gam pwysig tuag at wahaniaethu rhwng y 'rhataf' a'r 'gwerth gorau', ac yn gydnabyddiaeth y gall caffael cyfrifol ddod ag amryw o fuddiannau i'r gymdeithas ehangach.

Mae'r penderfyniad i adael yr UE yn creu cyfle i ailedrych ar gyfreithiau a pholisïau caffael, er mwyn ceisio sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn arwain trwy esiampl, yn nhermau cefnogi bwyd a busnesau ffermio yng Nghymru a'r DU.

Mae UAC o'r farn y dylai'r Llywodraeth nesaf:

1. **Barhau i bwysleisio buddiannau caffael yn lleol, a gweithio i sicrhau bod yna lynu at yr egwyddorion a osodwyd yn y Cynllun Caffael yn Lleol er mwyn sicrhau buddsoddiad a buddiannau i fusnesau'r DU.**
2. **Adolygu rheolau caffael yng ngoleuni Brexit, gan anelu at gyflwyno polisïau sy'n golygu bod cyrff cyhoeddus yn rhoi blaenoriaeth i gefnogi busnesau lleol a Phrydeinig.**
3. **Cynorthwyo ac annog y sector cyhoeddus a'r sector preifat i gaffael cynnyrch y DU mewn ffordd sy'n cefnogi proseswyr a mentrau cydweithredol bach, canolig a mawr.**
4. **Sefydlu polisïau caffael sy'n arwain at greu cwmnïau a mentrau cydweithredol newydd, sy'n galluogi busnesau llai o faint i dendro fel rhan o'r broses gaffael, er mwyn sicrhau buddiannau yn nhermau cyflogaeth leol ac i wneud iawn am yr anghydbwysedd sy'n bodoli ar hyn o bryd ar hyd y gadwyn gyflenwi.**
5. **Gwneud hynny mewn ffordd sy'n codi ymwybyddiaeth a hyder yng nghynnyrch y DU, ymhlith ymwelwyr a dinasyddion y DU fel ei gilydd.**

Cadwyni Cyflenwi

Mae un newid ar ôl y llall i bolisiâu sy'n rheoli cystadleuaeth o fewn cadwyni cyflenwi wedi caniatáu goruchafiaeth i gwmnïau mawr o fewn y cadwyni hyn, a hynny mewn ffordd all fod yn hynod o andwyol i eraill, yn enwedig cynhyrchwyr cynradd.

Croesawyd y gefnogaeth drawsbleidiol pan gyflwynwyd Deddf Dyfarnwr Cod Cyflenwi Bwydydd 2013 felly, ac roedd UAC o blaid penodi Dyfarnwr Cod Cyflenwi Bwydydd i blismona arferion cadwyni cyflenwi. Fodd bynnag, mae UAC yn credu bod yna gyfiawnhad o hyd dros ehangu'r pwerau a roddwyd i'r Dyfarnwr, yn ogystal â sail sylweddol dros newid y rheolau cystadlu, o fewn y DU ac ar draws yr Undeb Ewropeaidd yn ogystal.

Ar lefel Ewropeaidd, bu'r camau i fynd i'r afael ag anghydbwysedd ar hyd y gadwyn gyflenwi'n fwy rhagweithiol, ac mae'r trafodaethau wedi troi o amgylch hyrwyddo cadwyni cyflenwi sy'n fwy effeithiol, teg a thryloyw, gyda'r nod canolog o sicrhau bod defnyddwyr yn talu prisiau priodol am fwyd, tra bod ffermwyr, cynhyrchwyr a dosbarthwyr bwyd yn cael taliadau tecach.

Mae UAC o'r farn y dylai'r Llywodraeth nesaf:

1. Ymestyn pwerau'r Dyfarnwr Cod Cyflenwi Bwydydd i ganiatáu cymryd camau pendant i fynd i'r afael ag arferion annheg ar hyd y gadwyn gyflenwi gyfan, ac nid y nifer bach iawn o gynhyrchwyr sydd â contractau manwerthu aliniedig yn unig.
2. Cynyddu pwerau'r Dyfarnwr Cod Cyflenwi Bwydydd i gynnwys manwerthwyr sylweddol a fyddai fel arall yn cael eu heithrio o'r cylch gwaith hwn, am fod eu trosiant yn llai nag £1 biliwn.
3. Adolygu rheolau cystadlu presennol y DU, i geisio gwneud iawn am yr anghydbwysedd grym sy'n bodoli ar hyd y gadwyn gyflenwi ddomestig, mewn ffordd sydd o fudd i gynhyrchwyr cynradd.
4. Cefnogi camau ar lefel Ewropeaidd i hyrwyddo cadwyn gyflenwi fwy effeithlon, teg a thryloyw, er mwyn sicrhau bod defnyddwyr yn talu prisiau priodol am fwyd, a bod pawb ar hyd y gadwyn gyflenwi'n cael taliadau teg am eu cynnyrch a'u gwasanaethau.

Hela gyda Chŵn

Er gwaetha'r casgliadau a amlinellwyd yn adroddiad Yr Arglwydd Burns ar hela, oedd yn pwysleisio'n benodol yr angen i roi ystyriaeth i'r effeithiau andwyol y byddai gwaharddiad ar hela'n ei gael ar ffermio a lles anifeiliaid mewn ardaloedd fel Cymru, cafodd y Ddeddf Hela ei phasio gan y senedd, ac mae wedi bodoli ers dros ddegawd bellach.

Yng Ngorffennaf 2015, yn sgil tystiolaeth wyddonol bod y cyfyngiad i ddau gi a osodir yn y Ddeddf Hela **nid yn unig yn peryglu lles anifeiliaid, ond hefyd yn tanseilio'r gallu i reoli llwynogod mewn ardaloedd lle mae rheoli pla'n hanfodol er mwyn gwarchod anifeiliaid fferm a bywyd gwylt**, cyflwynodd y Llywodraeth Offeryn Statudol a fyddai wedi caniatáu defnyddio mwy na dau gi i godi llwynog a'i yrru at y gynnu, gan ddatrys problemau o'r fath.

Fodd bynnag, tynnwyd yr Offeryn Statudol yn ôl pan ddywedodd Plaid Genedlaethol yr Alban (SNP) y byddai'n pleidleisio yn erbyn y newid - er gwaetha'r ffaith nad yw'r Ddeddf Hela'n berthnasol yn Yr Alban, ac y byddai'r newid wedi golygu bod y gyfraith ar hela yng Nghymru a Lloegr yn cyfateb i ddeddfwriaeth Yr Alban.

Mewn arolwg dilynol o'r ddeddfwriaeth hela yn Yr Alban, a gomisiynwyd gan Lywodraeth yr Alban, gwrthododd Yr Arglwydd Bonomy y galwadau i gyfyngu ar nifer y cŵn hela a ddefnyddir i godi llwynogod mewn termau cadarn, gan ddatgan y gallai cyfyngiadau o'r fath "seriously compromise effective pest control in the country".

Yn ôl arolwg o 650 o ffermwyr Cymru a gynhaliwyd yn 2014, roedd **75 y cant wedi gweld cynnydd yn nifer yr yn a laddwyd gan llwynogod ers cyflwyno'r Ddeddf Hela yn 2005, ac roedd 95 y cant wedi colli incwm o ganlyniad i weithgaredd llwynogod**.

Fel y cyfryw, mae ffermwyr yng Nghymru'n parhau i oddef cyfraith sydd nid yn unig yn peryglu lles anifeiliaid, ond sydd hefyd yn tanseilio'u gallu i amddiffyn eu hanifeiliaid.

Mae UAC yn galw ar Lywodraeth nesaf y DU:

1. I ddiddymu'r Ddeddf Hela i gydnabod effeithiau andwyol y ddeddfwriaeth ar les anifeiliaid, amaethyddiaeth, a bywyd gwylt - effeithiau cydnabyddedig sy'n seiliedig ar dystiolaeth wyddonol.
2. Fel mater o frys, ac fel cam cyntaf tuag at ddiddymu'r Ddeddf Hela, mynd ati unwaith eto i amrywio Atodlen 1 o'r Ddeddf i ddileu'r cyfyngiad ar nifer y c n y gellir eu defnyddio i godi llwynog, a chaniatáu'r defnydd o g n islaw'r ddaear i amddiffyn anifeiliaid fferm - rhywbeth y mae'r Ddeddf yn ei ganiatáu ar gyfer amddiffyn adar hela'n unig ar hyn o bryd.

Yr Amgylchedd

Dros filoedd o flynyddoedd, mae amaethyddiaeth wedi creu myrdd o dirweddau ac amgylcheddau sy'n diffinio'n hunaniaeth ni fel cenedl, ac yn chwarae rôl allweddol o ran lles corfforol a meddyliol biliynau o drigolion ac ymwelwyr i gefn gwlad Cymru bob blwyddyn.

Er bod nifer yn cydnabod y rôl ganolog mae amaethyddiaeth yn ei chwarae o ran cynnal ein hardaloedd gwledig, mae yna doreth o gamsyniadau am y berthynas honno, sy'n cael eu hyrwyddo'n aml gan gyrff a chyfryngau sy'n dewis gwneud amaethyddiaeth yn fwch dihangol, yn hytrach na derbyn gwirioneddau annifyr am ein byd naturiol.

Yna ceir y rheiny sydd ag agwedd ddirmygus fwy agored tuag at amaethyddiaeth, a'u hawydd i ddisodli'n cymunedau gwledig, gan adael i'r dirwedd fynd yn hollol 'wyllt' - camau a fyddai'n cael effaith gatastroffig ar ein hamgylchedd lled-naturiol a'n heconomïau gwledig.

Cydnabyddir gan y rhelyw bod syniadau o'r fath yn perthyn yn bendant i gyfnod o wladychiaeth, ond mae yna berygl go iawn bod syniadau tebyg wedi magu gwerth gwleidyddol ymhlith rhai - yn enwedig pan fydd cam-wybodaeth yn atgyfnerthu rhagfarnau sy'n bodoli eisoes.

Eto, gan gydnabod rôl amaethyddiaeth o ran darparu bwyd, amddiffyn yr amgylchedd a lliniaru'r newid yn yr hinsawdd, **mae gan ffermio rôl ganolog i'w chwarae o ran helpu'r DU i ddelio â'r holl heriau newydd mae ein byd yn eu hwynebu.**

Mae'r Undeb yn annog y Llywodraeth nesaf:

1. I gydnabod rôl allweddol amaethyddiaeth o ran cynnal ein tirwedd a'n hamgylchedd. I sicrhau bod targedau amgylcheddol yn cael eu gosod ar gyfer y diwydiant ffermio, sydd ddim yn arwain at gystadlu annheg a mwy o fewnforion o wledydd sydd â safonau amgylcheddol is o lawer na rhai'r DU.
2. I gydnabod y cyfraniad allweddol a wneir gan y diwydiant yn nhermau cynhyrchu bwyd lleol, dal a storio carbon, a diogelu'r cyflenwad bwyd.
3. Yng ngoleuni Brexit, i adolygu'r holl reoliadau amgylcheddol i sicrhau eu bod yn gymesur ac yn realistig.
4. I ailddyblu'r ymdrechion i ddatblygu dulliau o sicrhau bod ffermwyr yn cael eu gwobrwyo gan y sector cyhoeddus am gyflenwi nwyddau amgylcheddol.
5. I gynyddu cefnogaeth o du'r Llywodraeth i ffurfiau presennol a ffurfiau newydd o ynni gwyrdd.

Iechyd a Lles Anifeiliaid

Mae ffermio yng Nghymru'n parhau i ymfalchïo yn ei safonau uchel cyson mewn perthynas ag iechyd a lles anifeiliaid, ac mae'r diwydiant yn cyfrannu'n sylweddol at gostau cyffredinol iechyd a lles anifeiliaid yng Nghymru.

Er gwaethaf costau mewnbwn cynyddol a phroffidioldeb isel, mae cynhyrchwyr cynradd yn gorfod ysgwyddo costau sylweddol sy'n gysylltiedig ag iechyd cyhoeddus a biwrocratiaeth ddeddfwriaethol, er gwaetha'r pentwr o dystiolaeth bod nifer o fesurau o'r fath yn anghymesur, yn cael eu gweithredu'n aneffeithlon a/neu heb eu cefnogi gan y dystiolaeth wyddonol ddiweddaraf.

Mae UAC o'r farn y dylid cadw'r gost i'r diwydiant mor isel â phosib, ac yn y bôn mae'n parhau i wrthwynebu agenda o rannu costau a fyddai'n bygwth dyfodol ein ffermydd ymhellach.

Mae rhai o'r costau mwyaf sylweddol i'r diwydiant a'r Llywodraeth dros y ddwy ddegawd ddiwethaf wedi deillio o gyflwyno clefydau estron i'r amgylchedd ffermio mewn ffordd sydd y tu hwnt i reolaeth ffermwyr - gyda Chlwy'r Traed a'r Genau'n enghraifft nodedig o hynny.

Mae yna angen o hyd i gydnabod natur ddatganoledig iechyd anifeiliaid, ac yn aml mae'r angen i weithio'n agos â gweinyddiaethau datganoledig yn cael ei esgeuluso. Yn wir, mae camau i sicrhau bod symudiadau anifeiliaid yn cael eu monitro'n briodol yn y DU wedi methu â rhoi parch teilwng i gyfrifoldebau datganoledig, a'r angen i weithio ar y cyd wrth symud anifeiliaid rhwng rhanbarthau datganoledig - yn arbennig wrth greu cronfeydd data o symudiadau defaid.

Mae UAC felly'n galw ar weinyddiaeth nesaf y DU:

1. I gydnabod y safonau uchel o iechyd a lles anifeiliaid sy'n bodoli yng Nghymru, a sicrhau bod y costau sydd ynghlwm ag iechyd anifeiliaid, ac unrhyw fiwrocratiaeth gysylltiedig, yn gymesur, wedi'i gefnogi gan yr ymchwil wyddonol ddiweddaraf, ac nad yw'n rhoi cynhyrchwyr Cymru dan anfantais yn y farchnad Ewropeaidd.
2. I sicrhau nad yw Brexit yn amharu ar y rhwydweithiau cydweithredol a sefydlwyd i gadw golwg ar glefydau o fewn Gwledydd yr UE, i rannu gwybodaeth am glefydau a darparu systemau rhybuddio cynnar.
3. I amddiffyn y gyllideb bresennol ar gyfer sganio a chadw golwg ym Mhrydain, a sicrhau bod yna gydnabyddiaeth deilwng i'r ffaith bod pwerau iechyd anifeiliaid wedi'u datganoli, gan gynnwys pan fydd cronfeydd data'n cael eu datblygu sy'n gorfod monitro symudiadau anifeiliaid rhwng rhanbarthau datganoledig.
4. I gynyddu rheolaeth o ffiniau mewn ffordd sy'n lleihau'n sylweddol y perygl o glefyd estron, megis Clwy'r Traed a'r Genau'n cael ei gyflwyno i'r DU.
5. I gyflwyno mesurau i gael mwy o reolaeth ar fewnforio bwydydd o wledydd y Trydydd Byd lle gall clefydau estron fod yn bresennol.

TB Gwartheg


Er bod y broblem o BT Gwartheg yn dod o dan gategori iechyd a lles ehangach, a bod materion sy'n ymwneud â'r clefyd wedi'u datganoli i Gymru, mae polisïau TB Gwartheg a weithredir yn Lloegr gan Lywodraeth y DU **yn cael effaith sylweddol ar Gymru, ac yn effeithio ar statws y clefyd ar draws y DU gyfan.**

Er gwaetha'r amrywiaeth barn wyddonol am effeithiolrwydd difa moch daear, **mae presenoldeb TB mewn moch daear yn cael ei gydnabod gan bob gwyddonydd gwerth ei halen fel rhwystr mawr rhag cael gwared â'r clefyd.**

Ers yr etholiad diwethaf, mae'r dulliau a fabwysiadwyd yng Nghymru a Lloegr gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi troi o chwith. Disodlodd Cymru gynllun difa moch daear arfaethedig yng Ngogledd Penfro gyda rhaglen brechu moch daear pum mlynedd, a ddaeth i ben yn gynnar yn sgil prinder brechlyn. Ar y llaw arall, cafodd penderfyniad DEFRA i dreialu cynllun saethu moch daear ei ledaenu i ddeg ardal yn Lloegr yn ddiweddar.

Tra bod tystiolaeth Llywodraeth Cymru ei hun yn awgrymu **y byddai brechu cryn dipyn yn llai effeithiol na difa moch daear**, gan olygu costau cynyddol o £3.5 miliwn, mae canlyniad y treial yn Lloegr yn dal i fod yn amhendant, ond yn ôl pob sôn, bu nifer o ganlyniadau positif yn nhermau lleihau'r achosion o TB a chodi cyfyngiadau hirdymor ar symud gwartheg.

Mae TB wedi dychwelyd ar lefelau epidemig ar draws y rhan fwyaf o Gymru ...



1997 nifer o wartheg wedi eu difa yn flynyddol oherwydd TB

613

yn y 12 mis i Hydref 2016 nifer o wartheg wedi eu difa oherwydd TB

9,935



Nifer o foch daear wedi eu difa yn y 12 mis i Hydref '16 oherwydd TB

0

Lefelau TB mewn moch daear

14 gwaith yn uwch nag mewn gwartheg

O ystyried y buddsoddiad ariannol a phersonol a wnaed yn y treialon yn Lloegr, **mae UAC o'r farn y dylent barhau dan y Llywodraeth nesaf**, ac y byddai rhoi'r gorau iddynt yn mynd yn gwbl groes i bwrpas cynnal treialon o'r fath, sef gwella'r dystiolaeth ar gyfer gwneud unrhyw benderfyniadau allweddol mewn perthynas â TB.

Am fod difa moch daear yn parhau i fod yn destun sawl dadl wleidyddol, mae'r degau o filoedd o wartheg sy'n cael eu difa bob blwyddyn, a'r rheolaeth lem ar symudiadau gwartheg er mwyn lleihau'r perygl o ledaenu'r clefyd, yn cael llai o sylw o lawer.

TB Gwartheg

Mae'r rheolau hyn yn amrywio'n fawr rhwng Cymru a Lloegr, ac mae Undeb Amaethwyr Cymru'n credu bod yna gyfleoedd sylweddol i alinio polisiau rheoli gwartheg o fewn y ddau ranbarth, mewn ffordd sy'n sicrhau cymesuredd tra'n lleihau'r risg o drosglwyddo'r clefyd rhwng anifeiliaid.

Mae'r lefelau TB presennol yn fygythiad sylweddol i drafodaethau masnach llwyddiannus, oherwydd mewn sawl ranbarth, ar draws Cymru a Lloegr, maent yn uwch o lawer na'r lefel sy'n caniatáu i ranbarthau ddatgan eu bod 'heb TB'. **Mae UAC o'r farn bod y lefelau cyfredol o TB a diffyg cynllun o fewn y DU i reoli, ac yn y pen draw, ddileu TB, yn wendid difrifol wrth drafod telerau ar lefel genedlaethol.**

Byddai UAC yn disgwyl i Lywodraeth nesaf y DU:

1. Sicrhau bod y rhaglen difa moch daear yn Lloegr yn parhau i gael ei lledaenu er mwyn ychwanegu at y sylfaen o dystiolaeth ar effeithiolrwydd polisiau rheoli moch daear.
2. Cyhoeddi ystadegau manwl yn rheolaidd am y nifer yr achosion o TB mewn ardaloedd lle mae moch daear yn cael eu difa.
3. Cynnal profion blynyddol ar draws Lloegr i wella'r broses o fonitro'r clefyd a lleihau'r perygl o anifeiliaid sydd wedi'u heintio'n dod i Gymru.
4. Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflwyno mesurau profi cyn symud unffurf a chymesur, sy'n gwneud hi'n ofynnol bod yr holl wartheg yng Nghymru a Lloegr yn cael profion cyn symud, ac eithrio am gyfnod o 60 diwrnod ar ôl cael profion clir ar gyfer symudiadau o ardaloedd neu ranbarthau risg uchel, a chyfnod o 180 o ddiwrnodau ar ôl prawf clir ar gyfer symudiadau o ardaloedd neu ranbarthau risg isel.
5. Ystyried y lefelau TB presennol fel risg economaidd difrifol i drafodaethau masnach llwyddiannus. Cynnal asesiad risg ffurfiol o oblygiadau'r lefelau presennol o TB Gwartheg ar draws y Deyrnas Unedig gyfan, p'un ai ydy cyfrifoldebau lechyd Anifeiliaid wedi'u datganoli ai peidio.
6. Dod o hyd i ateb a fydd yn dileu TB Gwartheg er mwyn gallu cadarnhau bod y DU heb TB o fewn cyfnod amser sy'n golygu'r risg lleiaf posib i fasnachu.

#FARMINGMATTERS

Yr unig undeb amaethyddol sydd yn cynrychioli dim ond
ffermwyr Cymru, ac yn cael ei chydabod gan
Lywodraeth y DU i wneud hynny



UAC

Llys Amaeth
Plas Gogerddan
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3BT

head.office@fuw.org.uk

Ffôn 01970 820 820

#AMAETHAMBYTH

